**Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yng Nghymru**

**Hysbysiad Preifatrwydd**

## Beth yw PISA

Mae Cymru, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn cymryd rhan yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

## Cymryd rhan yn PISA

Mae cymryd rhan yn PISA yn wirfoddol. Fodd bynnag, drwy gytuno i gymryd rhan, bydd y data personol a ddarperir gennych yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru (fel rheolydd data) yn y ffyrdd a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Bydd cymryd rhan yn PISA yn caniatáu i Lywodraeth Cymru feincnodi ein haddysg a'n polisi yn erbyn gwledydd eraill, adolygu cryfderau a gwendidau ein system mewn cyd-destun rhyngwladol, a monitro tueddiadau dros amser ar sail mesurau annibynnol. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â thasg er budd y cyhoedd ac o dan yr awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom.

## Sut y byddwn yn defnyddio'r data personol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundeb ag Adran Addysg y Deyrnas Unedig a'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi penodi Pearson UK (mewn partneriaeth â Phrifysgol Rhydychen) yn gontractwr. Byddant yn prosesu eich data personol ar ran Llywodraeth Cymru.

Dim ond at ddibenion gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi ystadegau yn ymwneud â'r system addysg yng Nghymru y defnyddir y data. At ddibenion PISA, bydd Llywodraeth Cymru a Pearson UK/Prifysgol Rhydychen yn cysylltu'r wybodaeth â gwybodaeth arall sydd gan Llywodraeth Cymru eisoes, fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 4. Bydd hyn yn galluogi gwaith dadansoddi ac yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd ein polisïau addysg.

Nid ydym yn cael unrhyw ddata nes bod yr asesiad PISA wedi'i gwblhau a'r adroddiad wedi'i gyflwyno. Wedi hynny, mae'r data personol yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru gan y Rheolwr Rhaglen Cenedlaethol penodedig. Nid yw Pearson UK/Prifysgol Rhydychen yn cadw unrhyw wybodaeth unwaith y bydd y data wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Pan fydd y gwaith cysylltu hwn wedi digwydd, mae'r data personol yn cael ei wneud yn ddienw cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, ac wedi hynny ni fydd modd modd adnabod unrhyw fyfyrwyr nac ysgolion unigol sydd wedi cymryd rhan. Ni fydd Llywodraeth Cymru (na'r contractwyr penodedig) yn rhannu unrhyw wybodaeth a fyddai'n peri i rhywun adnabod cyfranogwyr unigol yn PISA ag unrhyw drydydd

partïon oni bai ei bod yn ofynnol iddynt wneud hynny yn ôl y gyfraith, ac ni fydd unrhyw ddisgybl ac ysgol unigol yn adnabyddedig nac yn adnabyddadwy mewn unrhyw waith adrodd. Byddwn yn cadw'r data dienw am gyfnod amhenodol ar gyfer dadansoddi tueddiadau.

Bydd data hefyd yn cael eu rhannu gyda'r OECD ond set o ddata dienw yn unig y bydd yn ei chael i greu ei ystadegau cyfanredol.

**Diogelwch a chyfrinachedd**

Bydd unrhyw ddata personol a gesglir gan Lywodraeth Cymru (a sefydliadau sy'n gweithredu ar ei rhan) yn cael eu trin mewn modd diogel a chyfrinachol.

**Eich hawliau.**

Mae gennych hawl i'r canlynol:

- i gael mynediad at y data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch;
- ei gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- i wrthwynebu gwaith prosesu - mewn amgylchiadau penodol;
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' – mewn amgylchiadau penodol;
- i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data (manylion cyswllt isod).

**Sut mae codi pryder**

Os ydych yn dymuno cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru.

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: **SwyddogDiogeluData@llyw.cymru**
Fel arall, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Gallwch hefyd gysylltu â:

Lisa Wall
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Lisa.Wall@llyw.cymru